

HANES CELF

Amser - 1.5 awr

Atebwch DDAU gwestiwn.

Wrth roi'ch ateb dylech gyfeirio at enghreifftiau penodol o weithiau celfyddydol, gan nodi eu gwneuthurwyr, eu teitl, a'r flwyddyn pan gawsant eu gwnaed. Defnyddiwch enghreifftiau gwahanol ym mhob ateb.

1. Yn *Ways of Seeing* (1972) dywedodd John Berger "Nid yw'r berthynas rhwng yr hyn a welwn a'r hyn a wyddom byth yn un sydd wedi'i setlo". **Rhowch ddadansoddiad ac ymdriniaeth ar UN darn o gelf y mae ei ystyr wedi newid gydag amser.**
2. Yn 1989 disgrifiodd Stuart Hall sut, yn niwylliant Prydain "fel rheol mae pobl groenddu wedi bod yn wrthrychau, ond prin yn destunau, i weithgareddau cynrychioli". **Rhowch ddadansoddiad ac esboniad ar sut mae o leiaf UN artist nad yw'n groenwyn wedi defnyddio celf i ymdrin â materion cynrychiolaeth.**
3. Yn 1859 beirniadodd Charles Baudelaire "y diwydiant ffotograffiaeth" am fod yn "lloches i'r holl baentwyr sy'n aflwyddiannus, yn ddiffygiol eu doniau neu'n rhy ddiog i gwblhau eu hastudiaethau". **A yw ffotograffau'n gelf? Pam?**
4. Yn 1974 disgrifiodd Lea Vergine "Y Corff fel Iaith". **Rhowch ddadansoddiad a chymhariaeth ar DDAU ddarn o gelf o wahanol gyfryngau (e.e. paentio, cerflunio, perfformio, gosodwaith, ffotograffiaeth, argraffwaith), sy'n ymdrin â'r corff fel iaith.**
5. Yn 1919 datganodd grŵp Komfut: "Mae cyfundrefn Gomiwnyddol yn mynnu ymwybyddiaeth Gomiwnyddol. Rhaid ail-greu pob ffurf ar fywyd, moeseg, athroniaeth, a chelfyddyd yn unol ag egwyddorion Comiwnyddol. Heb hynny, mae datblygiad y Chwyldro Comiwnyddol yn y dyfodol yn amhosib". **Beth, os rhywbeth, sy'n gwneud celfyddyd yn wahanol i bropaganda?**
6. "Pan symudwch dreftadaeth ddiwylliannol i mewn i amgueddfa, rydych yn ei symud allan o'i chyd-destun. Ond mae'r dadleoli hwnnw hefyd yn weithred greadigol" (Hartwig Fischer, cyfarwyddwr yr Amgueddfa Brydeinig, 2019). **A ddylid dychwelyd Marmorau'r Parthenon (a elwir weithiau'n 'Farmorau Elgin') i Wlad Groeg?**